**Addewid dioddefwr ymddygiad gwrthgymdeithasol**

1. Dylai dioddefwyr wybod pwy i adrodd iddynt a chael eu hysbysu a’u cynnwys unwaith y gwneir adroddiad.

2. Dylai asiantaethau drin dioddefwyr yn gynhwysol, gyda pharch a chanolbwynt ar y niwed.

3. Dylai asiantaethau weithio ar draws ffiniau, defnyddio’r broses Sbardun Cymunedol a chanolbwyntio ar ddatrysiad.

4. Dylai asiantaethau fod yn dryloyw trwy gydol y broses ymchwiliad ac o ran eu canlyniadau.

5. Dylid cymryd dull iechyd y cyhoedd a llwybrau atgyfeirio clir er mwyn delio ag achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol a dylid gwneud y defnydd gorau o raglenni sy’n bodoli, gofynion cadarnhaol, gwasanaethau presennol a threfniadau llywodraethu.

6. Dylid rhannu arfer orau trwy rwydwaith o arbenigwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ar draws ffiniau aml-asiantaeth yn lleol a chenedlaethol.

7. Dylai unigolion sy’n dangos ymddygiad gwrthgymdeithasol gael cyfle i gymryd cyfrifoldeb ac atgyweirio’r difrod maent wedi ei wneud neu wynebu canlyniadau rhesymol, teg a chymesur, gan gynnwys arfer orau ar gyfer pobl ifanc.

8. Dylai ymarferwyr gael eu hyfforddi i ganfod a gweithredu ar achosion sylfaenol, neu’r cymhelliant tu ôl i’r ymddygiad, ac nid delio â’r canlyniadau yn unig.

9. Dylai bob asiantaeth gael strategaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn lle a’i adnewyddu’n flynyddol.

10. Dylai bob asiantaeth fod yn fudd-ddeiliad gweithredol yn y broses Sbardun Cymunedol a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu yn hanfodol i sicrhau uniondeb y rhwyd diogelwch ar gyfer dioddefwyr.